## DISGRIFIAD O SWYDD YMDDIRIEDOLWR (HOLL AELODAU'R CYNGOR)

Cymhwysedd: Bydd aelodau a benodir i'r Cyngor (corff llywodraethu'r Brifysgol) ymhlith Ymddiriedolwyr elusen Prifysgol Caerdydd (Rhif Elusen 1136855) a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwyr.

### Trosolwg o'r Swydd

- Sicrhau bod llywodraethiant, cyfeiriad strategol ac asedau'r Brifysgol yn cael eu cynnal, yn unol â chanllawiau cyfreithiol a rheoleiddiol
- Datblygu nodau ac amcanion y Brifysgol
- Gweithredu er budd gorau'r Brifysgol a chynnal busnes ar ran yr ymddiriedolaeth

### Cyfrifoldebau

1. Craffu'n feirniadol ar strategaethau, cynlluniau ariannol a chynlluniau eraill, risgiau, sicrwydd a pherfformiad a sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei nodau elusennol
2. Sicrhau bod adnoddau'r Brifysgol yn cael eu defnyddio'n briodol ac wrth geisio cyflawni ei nodau a'i amcanion elusennol
3. Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol a sicrhau bod ei hasedau a'i heiddo'n cael eu rheoli'n briodol
4. Sicrhau bod y Brifysgol yn gallu dangos cydymffurfiaeth â'i dogfennau llywodraethu (Siarter, Statudau ac Ordinhadau), cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau, canllawiau rheoleiddio a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol eraill
5. Sicrhau bod risgiau mawr y Brifysgol yn cael eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd a bod systemau ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau
6. Gwneud yn siŵr bod ansawdd darpariaeth addysgol y Brifysgol yn cael ei chynnal
7. Cyfrannu at lwyddiant a nodau hirdymor y Brifysgol
8. Helpu i feithrin diwylliant bwrdd sy'n gynhwysol ac yn groesawgar
9. Dangos diddordeb yng Nghymru a'r cyd-destun Cymreig y gwneir penderfyniadau ynddo
10. Cydnabod y ffin briodol rhwng llywodraethu'r Brifysgol a rheoli'r Brifysgol
11. Gwneud penderfyniadau ar y cyd er budd gorau'r Brifysgol, gan ddefnyddio gofal a sgil rhesymol

### Dyletswyddau

1. Cyfrannu'n weithredol at gyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd perthnasol eraill a gweithredu'n unol â'r Rheolau Sefydlog (Ordinhad 3)
2. Gweithredu'n unol ag Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan (Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Natur Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth)
3. Cydymffurfio â chyfrifoldebau Ymddiriedolwr, fel y nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn Elusennau
4. Hysbysu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol os bydd eich prif gyfeiriad neu eich manylion preswylio'n newid yn ystod eich tymor yn Ymddiriedolwr
5. Rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Brifysgol neu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol am unrhyw fuddiannau neu wrthdaro posibl, gan gynnwys newidiadau i unrhyw fuddiannau a nodwyd yn flaenorol
6. Cwblhau'r Datganiad Ymddiriedolwr Elusen blynyddol a hysbysu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol am unrhyw newidiadau i'r Datganiad neu unrhyw resymau dros eich gwneud yn anghymwys i fod yn Ymddiriedolwr
7. Hysbysu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol am unrhyw roddion neu letygarwch y mae'n rhaid eu datgan yn unol â'r Polisi Buddiannau Ymddiriedolwyr

## Cefnogaeth a Chyngor Annibynnol

Mae gan Ymddiriedolwyr yr hawl i geisio cyngor a gwasanaethau gan Gadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor a Phrif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau.

## Uwch-gyfeirio Pryderon

Dylai Ymddiriedolwr roi gwybod i Gadeirydd y Cyngor am unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad aelodau pwyllgorau neu ddyletswyddau pwyllgorau.  Os bydd gan Ymddiriedolwr bryder mewn perthynas â Chadeirydd y Cyngor, dylai godi'r pryder gydag Is-gadeirydd y Cyngor.